Fy Nghartref

Mae pob ceiniog yn cyfrif

North Wales Housing
Tai Gogledd Cymru

Cymdeithas Tai
Clwyd Alyn
Housing Association

Cartrefi Conwy
creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
creating communities to be proud of

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

50 Tai Wales & West Housing Fifty Years
Pum Deg Mlynedd

Eich Cymdeithasau Tai Lleol

Plas Blodwel, Broad Street, Cyffordd Llandudno,
Conwy, Gwynedd LL31 9HL

Ffôn. 01492 572 727
www.nwha.org.uk

72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 OJD

Ffôn. 01745 536 800
www.clwydalyn.co.uk

Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Uned 6 a 7 Llys Castan, Parc Menai
Bangor, Gwynedd LL57 4FH

Ffôn. 0300 123 8084
www.ccgwynedd.org

Ty Silyn, Penygroes,
Caernarfon, LL54 6LY

Ffôn. 0300 111 2122
www.grwpcynefin.org

Unit 2, Acorn Business Park,
Aber Road, Flint CH6 5YN

Ffôn. 0800 052 2526
www.wwha.co.uk

Bae Colwyn

41 Conway Road,
Bae Colwyn, LL29 7AA

Ffôn. 0300 124 0040
www.cartreficonwy.org

Llandudno

15-17 Madoc Street,
Llandudno, LL30 2TL

Ffôn. 0300 124 0040
www.cartreficonwy.org

Croeso

Amcan y llyfryn yma yw rhoi help i chi setlo yn eich cartref newydd ac i wneud yn fawr o'ch pres.

Mae **Fy Nghartref - Cyfrif Pob Ceiniog** yn rhoi syniadau ymarferol i chi o le gallwch arbed pres - ac osgoi mynd i ddyled. Gallwch gyfeirio at bynciau perthnasol a'i ddefnyddio i edrych ar ôl eich pres.

Gobeithio y bydd yn eich helpu i symud i'ch cartref heb achosi straen i chi gan ei gwneud hi'n haws i chi gadw llygaid ar eich pres er mwyn atal unrhyw anawsterau yn y dyfodol.

Y brif neges yw cael cyngor yn fuan os ydych yn wynebu problemau ariannol.

Ein hamcan yw eich helpu i gynnal tenantiaeth lwyddiannus. Edrychwn ymlaen at sefydlu perthynas hir gyda chi.

Mae'r pecyn yma wedi ei gynhyrchu gan Bartneriaeth Cynhwysiant Ariannol Gogledd Cymru ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol.

North Wales Housing / Tai Gogledd Cymru
www.nwha.org.uk
Ffôn: 01492 572727

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Housing Association
www.clwydalyn.co.uk
Ffôn: 0800 1835757

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing
www.grwpcynefin.org
Ffôn: 0300 111 2122

50 Tai Wales & West Housing Fifty Years
www.WWHA.co.uk
Ffôn: 0800 0522526

Cartrefi Conwy
creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
creating communities to be proud of
www.cartreficonwy.org
Ffôn: 0300 124 0040

Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Ffôn: 0300 123 8084
www.ccgwynedd.org

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

1 Paratoi ar gyfer eich cartref newydd 4-7

2 Y pethau hanfodol 8-11

3 Budd-daliadau, Cyflogaeth a Hyfforddiant 12-20

4 Gwneud yn fawr o'ch pres 21-24

5 Bancio, Benthyg ac Arbed 25-30

6 Delio gyda Dyledion 31-38

7 Mynd ar-lein 39-40

Paratoi ar gyfer eich cartref newydd

Mae symud i gartref newydd yn ddigwyddiad cyffrous iawn - ond gall eich rhoi o dan bwysau hefyd. Dyna pam ei bod hi'n syniad i gynllunio ymlaen llaw.

Cyn penderfynu symud, mae angen i chi feddwl am y gost o redeg cartref. Gall paratoi cyllideb eich help i weld:

- pa mor bell aiff eich pres
- pryd mae angen i bres fynd allan
- beth fydd ar ôl ar gyfer pethau eraill

Paratoi cyllideb

Yn eich cartref newydd mae angen i chi gofio nad y bil bwyd yn unig fydd gennych i'w dalu. Bydd yna filiau eraill fel rhent, treth cyngor, nwy, trydan, dŵr a'ch trwydded teledu.

I'ch helpu i gynllunio ar gyfer hyn rydym wedi paratoi taflen gyllideb (tu mewn)

Cam 1 eich incwm - y pres sy'n dod i mewn
Cam 2 gwariant - y pres yr ydych yn ei wario
Cam 3 darganfod faint o bres sydd gennych ar ôl

Tip

Os ydych yn gwario mwy nag ydych yn ennill yna ni fydd eich cyllideb yn balansio. Ewch i gael cyngor yn syth gan eich Cymdeithas Dai. Efallai bod yna fudd-daliadau nad ydych yn eu hawlio neu ffyrdd eraill o wneud mwy o incwm a gwneud yn fawr o'ch pres a gallant eich helpu i wneud hyn.

Ar ôl i chi neilltuo pres ar gyfer y pethau hanfodol - y biliau rheolaidd ar gyfer rhent, treth cyngor, gwasanaethau a thrwydded teledu - gallwch feddwl am y pethau eraill y bydd eu hangen mewn cartref newydd fel costau symud, prynu dodrefn, carpedi ac offer trydanol.

Tip

Meddyliwch cyn cymryd benthyciad a chytundebau hurbwrcas ar gyfer pethau i'r tŷ: Fedrwch chi fforddio talu yn ôl? Ai dyma'r ffordd rataf o brynu pethau? Oes yna lefydd eraill lle fedrwch chi gael help? (Ewch i Adran 2 am fwy o wybodaeth.)

Wrth bwy dwi angen dweud?

Defnyddiwch y rhestr wirio isod i feddwl am wrth bwy ydych chi angen dweud am y newid yn eich amgylchiadau / cyfeiriad. Pa gwmnïau neu asiantaethau sy'n berthnasol i chi? Gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod eich manylion cyswllt newydd.

Treth y Cyngor	
Budd-dal Tai	
Adran Gwaith a Phensiynau - Budd-dal y Wlad (gan gynnwys Budd-dal Anabledd)	
Credyd Treth Plant / Gweithio	
Budd-dal Plant	
Cyflenwyr Nwy, Dŵr a Thrydan	
Swyddfa'r Bost - i ail gyfeirio post	
Banc, Cymdeithas Adeiladu, Undebau Credyd	
Cwmnïau Yswiriant - Cynnwys y Cartref ac Yswiriant Car	
DVLA – Treth Car, Trwydded yrru ayb.	
Darparwr Ffôn a Rhyngrwyd	
Sky	
Meddyg/Deintydd	
Ysgol/meithrinfa	
Cyflogwr	
HMRC	

Yn y dyddiau cyn i chi symud mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod chi yn "cau lawr" eich cartref presennol yn gywir. Mae hyn yn bwysig gan y bydd yn eich helpu i osgoi dyled a dryswch yn y dyfodol a gwneud yn siŵr eich bod yn talu'r swm iawn yn eich eiddo newydd.

Yn gyntaf, nodwch rifau'r mesurydd gan ddefnyddio'r rhestr wirio yma.

	Dyddiad	Darlleniad Mesurydd	Cyflenwr	Dyddiad	Dyddiad Mesurydd	Cyflenwr
Trydan						
Nwy						
Dŵr						

Os mai rhentu eich cartref blaenorol oeddech chi yna gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi'r rhybudd gofynnol i'r landlord eich bod chi'n gadael. Bydd angen i chi lanhau'r eiddo yn drylwyr, mynd a'ch holl eiddo oddi yno a thrwsio unrhyw ddifrod fel y gallwch gael ei blaendal llawn yn ôl ac osgoi unrhyw ad-daliadau neu gostau clirio.

Cysylltiadau Defnyddiol

Gwasanaeth Cyngor Ariannol 0300 500 5000
www.moneyadviceservice.org.uk

Cyngor diduedd gyda theclyn cyllido ar-lein a fydd yn gwneud y sŷms i chi.

Money Made Clear Wales gwasanaeth ar-lein
www.moneymadeclearwales.org

Paratoi ar gyfer eich cartref newydd

Y pethau hanfodol

Rhent, Nwy, Trydan, Dŵr a Dodrefn

Wrth gynllunio am eich cartref newydd, y peth cyntaf i'w wneud yw trefnu'r pethau hanfodol fel rhent, nwy, trydan a chyflenwad dŵr. Yna gallwch feddwl am ei ddodrefnu.

Talu eich rhent

Mae rhent yn flaenoriaeth. Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn talu eich rhent wythnosol neu fisol ymlaen llaw i osgoi mynd i ôl-ddyled.

Pan fyddwch wedi cael cynnig tŷ byddwch yn cael gwybod faint o rent y bydd rhaid i chi dalu. Gallwch lenwi gwiriad budd-dal ar-lein i weld a oes gennych hawl i unrhyw bres tuag at eich costau tŷ. Ewch i **Cysylltiadau Defnyddiol.**

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch dalu eich rhent, mae'r rhai mwyaf cyffredin wedi eu rhestru isod. Gofynnwch i'ch landlord pa ffyrdd y maen nhw yn eu cynnig.

- Debyd Uniongyrchol – dyma'r ffordd hawsaf ac mae'n sicrhau bod rhent yn cael ei dalu ar amser.
- Rhyngrwyd – drwy wefan eich landlord www.allpayments.net
- Cerdyn Talu Allpay
- Allpay dros y ffôn 0844 557 8321
- Mewn rhai swyddfeydd Cymdeithasau Tai

Tip

Os cewch unrhyw drafferth talu eich rhent neu gyda'ch incwm yn gyffredinol, cysylltwch gyda'ch landlord yn syth, gallant eich helpu. Gallwch hefyd ofyn am help gan asiantaeth cynghori arall.

Nwy a thrydan

Mae yna nifer o gamau syml y gallwch eu cymryd i leihau eich biliau nwy a thrydan.

I weld pwy yw'r cyflenwr rhataf ewch i wefan uSwitch. Ewch i Cysylltiadau Defnyddio.

Talwch eich biliau drwy'r dulliau rhataf, cewch ostyngiad am dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol.

Defnyddiwch lai o ynni - y mwyaf yr ydych yn ei ddefnyddio'r mwyaf byddwch yn ei dalu. Os ydych yn cael trafferth gyda'ch biliau tanwydd, mae'r Llinell Gymorth Gwresogi'r Cartref yn rhoi cyngor ar y prisiau gorau ac unrhyw opsiynau talu hyblyg sydd gan gyflenwyr i roi help i rai sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau tanwydd.

Os ydych ar incwm isel ac yn cwrdd â chriteria penodol, efallai y byddwch yn gymwys i gael pris gostyngol. Cysylltwch efo'r Llinell Gymorth Gwresogi'r Cartref i weld os ydych yn gymwys.

Tip

Rydych yn parhau i ddefnyddio trydan pan fydd eich offer ar 'stand-by' neu pan fydd gwefrwr ymlaen yn y plwg.

Cyflenwad Dŵr

Does gennych ddewis pwy sy'n cyflenwi dŵr i chi, felly mae angen i chi roi gwybod i'r cwmni perthnasol eich bod chi wedi symud. Bydd eich landlord yn dweud wrthych chi pwy yw eich cyflenwr ac os oes yna fesurydd dŵr yn eich tŷ. Cofiwch ddarllen y mesurydd os oes yna un yn eich cartref newydd.

Mae mesuryddion dŵr yn mesur y dŵr yr ydych chi yn ei ddefnyddio. Cysylltwch gyda'ch landlord i gael caniatâd os ydych eisiau gosod mesurydd dŵr yn eich cartref.

Tip

Gofynnwch i'ch cyflenwr dŵr a yw hi'n rhatach i chi osod mesurydd dŵr yn eich tŷ.

Pan fyddwch yn cysylltu gyda'r cyflenwr gofynnwch a ydych chi'n gymwys i gael unrhyw ostyngiad oherwydd eich amgylchiadau neu amgylchiadau'r teulu.

Trwydded Teledu

Mae angen i chi gael trwydded teledu ddilys i wylio neu recordio rhaglenni gan eu bod yn cael eu dangos ar y teledu. Does dim gwahaniaeth pa offer yr ydych yn eu defnyddio - gliniadur, PC, ffôn symudol, bocs digidol, recordydd DVD neu set deledu - mae angen trwydded ar gyfer pob un.

Does dim angen trwydded i wylio clipiau fideo ar y rhyngrwyd cyn belled bod beth ydych yn ei wylio ddim yn cael ei ddangos ar y teledu'r un pryd a phan fyddwch chi yn ei wylio.

Tip

- Mae gennych hawl i drwydded teledu AM DDIM os ydych chi dros 75 oed
- Mae gennych hawl i gael gostyngiad o 50% os ydych chi'n ddall
- Gallwch dalu am drwydded yn wythnosol, bob bythefnos neu'n fisol am gyn lleied â £5.60 yr wythnos. Ffoniwch 0300 555 0286 i drefnu cynllun talu.

Yswiriant Cynnwys y Cartref

Efallai ei fod yn edrych fel cost ychwanegol ar hyn o bryd ond mae cael yswiriant cynnwys y cartref yn rhoi tawelwch meddwl i chi. Nid yw bywyd bob amser yn rhedeg fel wats ac mae'n dda gwybod os bydd yna unrhyw beth annisgwyl yn digwydd, na fyddwch chi allan o boced.

Mae yswiriant cynnwys y cartref yn eich sicrhau yn y mwyafrif o ddigwyddiadau a all ddigwydd yn eich cartref fel tân, byrgleriaeth a llifogydd.

Efallai y bydd yswiriant cynnwys y cartref ar gyfer eich eiddo ar gael drwy eich landlord am bris gostyngol a gall gostio cyn lleied â £1.00 yr wythnos.

Cysylltwch gyda'ch Adran Dai am wybodaeth bellach am Yswiriant Cynnwys y Cartref.

Tip

Tra bydd eich landlord yn trwsio unrhyw ddifrod i strwythur eich eiddo, ni fydd yr un peth yn wir am eich eiddo personol chi.

Dodrefn

Cofiwch, does dim rhaid prynu bob dim ar unwaith; defnyddiwch eich taflen gyllido i'ch helpu i gynllunio ac arbed.

Er mwyn cychwyn yn eich cartref newydd byddwch angen dodrefn syml. Gall rhai fod yn ddrud i'w prynu i gyd yr un pryd.

Gallwch brynu dodrefn da sydd wedi eu defnyddio yn barod a nwyddau gwyn (fel popty neu oergell) o ganolfannau ailgylchu. Ewch i Cysylltiadau Defnyddiol am siopau yn eich ardal.

Ewch hefyd i www.freecycle.org yn eich ardal am nwyddau sydd wedi eu cyfrannu.

Os byddwch angen benthyg pres i brynu eitemau i'ch cartref ewch i Adran 5 am fwy o wybodaeth.

Os ydych yn derbyn budd-dal penodol ac yn cwrdd ag amodau penodol, efallai y gallwch fod yn gymwys am gymorth y Gronfa Cymorth wrth Ddisgresiwn i brynu ychydig o ddodrefn. Ewch i Cysylltiadau Defnyddiol.

Cysylltiadau Defnyddiol

Gwasanaethau

Uswitch - **www.uswitch.com – Ffôn: 0800 051 5493 / 0333 321 6808**

Llinell Gymorth mewn Argyfwng – **www.energyhelpline.com – Ffôn: 0800 0740745**

Simply Switch – **www.simplyswitch.com – Ffôn: 0800 011 1395**

Home Heat Helpline – **www.homeheathelpline.org.uk – Ffôn: 0800 33 66 99**

Winter Fuel Payments Helpline – **www.gov.uk/winter-fuel-payment - Ffôn: 08459 15 15 15**

Cyd Cymru – **www.cydcymru-energy.com – Ffôn: 0800 093 5902**

Benefit Check - Turn2Us – **www.turn2us.org.uk - Ffôn: 0808 8022000**

TV Licensing – **www.tvlicensing.co.uk - Ffôn: 0300 790 6165**

Dodrefn

Discretionary Assistance Fund – **www.moneymadeclearwales.org - Ffôn: 0800 859 5924 / 033 0101 5000**

Crest Co-operative (Conwy) – **www.crestcooperative.co.uk – Ffôn: 01492 596783**

Antur Waunfawr (Gwynedd/Ynys Môn) – **www.anturwaunfawr.org – Ffôn: 01286 650059**

Flintshire Refurbs – **www.refurbs.org.uk – Ffôn: 01352 734111**

Seren Ffestiniog Cyf – **www.serencyf.org/ - Ffôn: 01766 832 378**

New2You (Wrexham) – **www.new2youwrexham.co.uk – Ffôn: 01978 449121**

Budd-daliadau, Cyflogaeth a Hyfforddiant

BUDD-DALIADAU

Mae'n bwysig eich bod chi'n gwneud yn fawr o'ch incwm ym mhob ffordd p'un ai eich bod yn gweithio neu os ydych yn anabl. Yn aml nid yw pobl yn gwneud hyn gan nad ydynt yn hawlio'r budd-dal sydd ar gael iddynt.

Felly, mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn gofyn y cwestiynau iawn, eich bod yn cael y wybodaeth gywir a'ch bod yn cael yr holl gymorth ariannol sydd ar gael i chi.

Mae yna nifer o newidiadau wedi bod i'r mathau o fudd-dal sydd ar gael dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'r newid mwyaf yw Credyd Cynhwysol (mwy o wybodaeth isod) sydd wedi cychwyn mewn rhai ardaloedd. Am fwy o wybodaeth am bob Budd-dal ewch i www.gov.uk neu cysylltwch gyda'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol (ewch i'ch llyfr ffôn lleol).

Gall llenwi ffurflenni fod yn flinedig ond dyma'r unig ffordd i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael y pres sy'n ddyledus i chi. Mae cymorth ar gael bob amser i hawlio.

Isod mae enghreifftiau o fudd-dal y gallwch fod yn gymwys i'w hawlio er mwyn cael mwy o incwm:-

• BUDD-DAL TAI

Gallwch wneud cais am Fudd-dal Tai p'un ai eich bod chi ar incwm isel neu'n ddi-waith er mwyn talu rhan o'ch rhent neu'r rhent i gyd. Mae faint y cewch chi yn ddibynnol ar eich incwm a'ch amgylchiadau. Nid oes yna swm penodol o fudd-dal tai ac mae faint y cewch chi yn ddibynnol ar ydych chi yn rhentu yn breifat neu gan y Cyngor/Cymdeithas Dai. Caiff y budd-dal ei reoli gan Awdurdodau Lleol heblaw eich bod chi'n derbyn Credyd Cynhwysol.

Mae faint y byddwch yn ei gael yn ddibynnol ar;

- eich rhent 'cymwys',
- os oes gennych lofft sbâr,
- incwm y cartref - gan gynnwys budd-daliadau, pensiwn a chynilion (Dros £6,000)
- eich amgylchiadau e.e. oed y bobl sy'n byw yn eich cartref, os oes gan rywun anabledd.

Sut i hawlio: - Gallwch gael ffurflen hawlio budd-dal gan eich Awdurdod Lleol neu gan eich landlord. Pan fyddwch yn cychwyn tenantiaeth, bydd rhan fwyaf o landlordiaid yn eich helpu i lenwi ffurflen hawlio a byddant yn parhau i'ch help yn ystod eich tenantiaeth.

Os oes gennych hawl i fudd-dal tai, i'w gwneud hi'n haws i chi, gallwch ofyn bod y taliad yn cael ei wneud yn syth i'ch landlord. Mae hyn yn golygu y bydd taliadau yn cael eu credydu yn erbyn eich cyfrif rhent yn syth gan yr Awdurdod Lleol.

• TALIADAU TAI YN ÔL DISGRESIWN

Mae'r budd yma yn darparu pres ychwanegol pan fydd eich Cyngor yn penderfynu eich bod angen cymorth ychwanegol i gwrdd â chostau eich cartref (Rhent). Mae'n rhaid eich bod chi'n derbyn Budd-dal Tai i hawlio a bydd eich Awdurdod Lleol yn edrych ar eich amgylchiadau i weld a fedrwch chi hawlio help yn ychwanegol i'ch Budd-dal Tai sy'n cael ei dalu i chi.

• BUDD-DAL TRETH CYNGOR/GOSTYNGIAD

Rydych yn gymwys i dalu treth y cyngor pan fyddwch chi'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn berchen neu'n rhentu eich cartref.

Pan fyddwch yn symud i eiddo bydd angen i chi gofrestru gyda Threth y Cyngor.Bydd rhai landlordiaid yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol fel rhan o'u gwaith ond eich cyfrifoldeb chi ydyw gwneud yn siŵr eich bod chi wedi cofrestru.

Efallai y bydd gennych hawl i leihad/budd-dal Treth Cyngor os ydych ar incwm isel neu'n ddi-waith. Gallwch hefyd gael 25% oddi ar y bil os mai chi yw'r unig oedolyn sy'n byw yn yr eiddo a gallwch gael gostyngiad pellach os ydych yn anabl neu'n fyfyriwr.

Os ydych yn byw mewn eiddo rhent lle rydych yn hawlio Budd-dal Tai gallwch hefyd wneud cais am Fudd-dal Treth Cyngor yr un pryd. Mae'n bwysig eich bod yn nodi ar y ffurflen hawlio eich bod eisiau hawlio'r ddau fudd-dal.

Newid yn eich amgylchiadau
Mae llawer iawn o broblemau yn codi oherwydd nad yw pobl yn dweud wrth eu Hawdurdod Lleol am newidiadau yn eu hamgylchiadau, rhai personol neu ariannol. Efallai y bydd gennych hawl i fwy neu lai o fudion yn ddibynnol ar y newid yn eich amgylchiadau. MAE'N BWYSIG EICH BOD CHI'N DWEUD YN SYTH AM Y NEWIDIADAU ER MWYN OSGOI PROBLEMAU DIFRIFOL YN Y DYFODOL.

Dylai newid i amgylchiadau gael eu hadrodd wrth hawlio Budd-dal Tai / Treth Cyngor neu Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;

- newid cyfeiriad,
- newid mewn incwm, i fyny neu lawr,
- newid yn swm sydd gennych wedi ei arbed,
- pobl yn symud i mewn i fyw gyda chi,
- pobl yn symud allan o'r eiddo,
- plant yn cyrraedd 18 mlwydd oed
- newid yn incwm rhai dros 18 mlwydd oedd sy'n byw yn y cartref.

Am fwy o wybodaeth ar hawlio a sut i hawlio Budd-dal Tai / Treth Cyngor neu Daliad Tai yn ôl Disgresiwn cysylltwch gyda'ch Awdurdod Lleol (ewch i Cysylltiadau defnyddiol isod), eich Landlord neu Gyngor ar Bopeth.

• CREDYD TRETH PLANT

Gallwch gael Credyd Treth Plant am bob plentyn yr ydych yn gyfrifol amdanynt os ydynt;

- o dan 16,
- o dan 20 ac mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy

Nid oes rhaid i chi fod yn gweithio i hawlio Credyd Treth Plant. Cewch bres am bob plentyn sy'n gymwys a ni fydd yn effeithio ar eich Budd-dal Plant.

• CREDYD TRETH GWAITH

Y swm sylfaenol o Gredyd Treth Gwaith yw hyd at £1,940 y flwyddyn ond gallwch gael mwy neu lai yn ddibynnol ar eich amgylchiadau ac incwm. Er mwyn hawlio Credyd Treth Gweithio os;

- os ydych rhwng 16 a 24 a bod gennych blentyn neu anabledd cymwys,
- eich bod yn 25 neu'n hŷn, bod gennych blant ai pheidio

Rhaid i chi;

- gweithio nifer penodol o oriau'r wythnos,
- cael eich talu am y gwaith yr ydych yn ei wneud
- incwm sy'n is na lefel benodol

Am fwy o wybodaeth ar sut i hawlio Credydau Gwaith neu Blant ffoniwch 0345 300 3900 neu ewch i www.gov.uk/claim-tax-credits neu cysylltwch gyda'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol.

• BUDD-DAL PLANT

Gallwch hawlio Budd-dal Plant os ydych yn gyfrifol am blentyn o dan 16 (neu o dan 20 os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy). Dim ond un person a all gael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn ac mae'n rhaid i chi adrodd am unrhyw newid i'ch amgylchiadau i'r Swyddfa Budd-dal Plant.

Os byddwch yn mabwysiadu neu faethu plentyn, dylech ofyn am gael hawlio budd-dal plant.

Am fwy o wybodaeth ar sut i hawlio, ffoniwch 0300 200 3100 neu ewch i www.gov.uk/child-benefit, fel arall cysylltwch gyda'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth Lleol.

• CREDYD PENSIWN

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal sy'n ymwneud ag incwm sy'n cynnwys 2 ran - Gwarant Credyd a Chredyd Cynilion.

- Mae **Credyd Gwarant** yn ychwanegu at eich incwm wythnosol.
  - I fod yn gymwys mae'n rhaid i chi fyw yn y Deyrnas Prydeinig ac mae'n rhaid eich bod chi neu eich partner fod wedi cyrraedd oed cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn
- Mae **Credyd Cynilion** yn daliad ychwanegol i bobl sydd wedi arbed tuag at eu hymddeoliad.
  - I gymhwyso am Gredyd Cynilion mae'n rhaid i chi neu eich partner fod yn 65 mlwydd oed neu'n hŷn.

Am fwy o wybodaeth ar sut i hawlio Credyd Pensiwn, ffoniwch 0800 99 1234 neu ewch i www.gov.uk/pension-credit fel arall cysylltwch gyda'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth Lleol.

• TALIADAU ANNIBYNIAETH BERSONOL (PIP) - lwfans Anabledd gynt.

Mae'r budd-dal yma o gymorth tuag at rhai o gostau sydd wedi eu hachosi gan iechyd tymor hir neu anabledd os ydych o 16 i 64 mlwydd oed. Caiff buddion fel arfer eu talu bob 4 wythnos ac mae'n rhydd o dreth. Gallwch gael PIP os ydych yn gweithio neu beidio. Mae yna 2 ran iddo (Byw bob dydd a Symudedd). Mae p'un ai y byddwch yn cael un neu'r ddau ohonynt yn ddibynnol ar sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch chi.

Am fwy o wybodaeth ar sut i hawlio Taliadau Annibyniaeth Bersonol, ffoniwch 0345 850 3322 neu ewch i www.gov.uk/disability-benefits-helpline fel arall cysylltwch gyda'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth Lleol.

• BENTHYCIAD CYLLIDEBU

Gallwch gael benthyciad cyllidebu i'ch helpu i dalu am bethau hanfodol fel rhent, dodrefn, dillad neu ddyledion hurbwrcas (hire purchase). Y swm lleiaf y gallwch ei fenthyg yw £100.00. Does dim llog ar fenthyciadau cyllidebu felly rydych chi ond yn talu yn ôl yr y swm ydych wedi ei fenthyg. Fel arfer mae'n rhaid i chi ad-dalu'r benthyciad o fewn 104 wythnos. I fod yn gymwys mae'n rhaid i chi neu eich partner fod yn cael un o'r buddion hyn am o leiaf 26 wythnos;

- Cefnogaeth Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Pensiwn

Am fwy o wybodaeth ar sut i hawlio cysylltwch gyda'ch Canolfan Waith Lleol neu ffoniwch 0345 603 6967 neu ewch i www.gov.uk/budfeting-loans fel arall cysylltwch gyda'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth Lleol.

• CRONFA CYMORTH DEWISOL (Cymru)

Mae'r gronfa yn cynnig taliadau, neu gefnogaeth, i bobl sydd angen cymorth mewn argyfwng a lle mae yna angen wedi ei adnabod i ddiogelu iechyd a lles. Bydd taliadau ar gael i bobl sydd heb unrhyw ddull arall o gael costau byw yn syth. Nid cwrdd â chostau parhaus yw eu bwriad. O fewn y cynllun mae yna 2 fath o gefnogaeth grant lle nad oes rhaid talu yn ôl:

- Taliadau Cymorth mewn Argyfwng – cymorth mewn argyfwng neu lle mae yna fygythiad i iechyd neu les. Unrhyw un dros angen help i gwrdd a chostau oherwydd argyfwng neu oherwydd trychineb.

- Cymorth Taliadau Unigol i gwrdd âg angen mewn argyfwng sy'n galluogi neu yn cefnogi pobl fregus i setlo neu barhau i fyw yn annibynnol yn y gymuned. (i fod yn gymwys rhaid i ymgeiswyr bod yn gymwys i dderbyn neu yn derbyn budd-daliadau les sy'n ymwneud ag incwm; neu os ydynt ar adael sefydliad neu cartref gofal o fewn 6 wythnos, eu bod yn debygol o gael budd-dal lles sy'n ymwneud â incwm wrth adael).

Am wybodaeth bellach a sut i wneud cais ffoniwch 0800 859 5924 (am ddim o ffôn tŷ) neu 03301 015 000 (ar y gyfradd leol neu ewch i www.moneymadeclearwales.org/home neu cysylltwch gyda'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth Lleol.

• TALIAD TYWYDD OER

Efallai y cewch chi daliad Tywydd oer os ydych yn cael:

- Credyd Pensiwn,
- Cefnogaeth Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Cynhwysol

Sut i hawlio: Nid oes angen i chi wneud cais. Os ydych yn gymwys i'w dderbyn, byddwch yn ei gael yn awtomatig. Os nad ydych wedi derbyn eich taliad ffoniwch eich Canolfan Bensiwn neu Swyddfa Jobcentre Plus.

• TALIAD TANWYDD GAEAF

Efallai y byddwch yn cymwys i gael Taliad Tanwydd Gaeaf os:

- cawsoch eich geni ar neu ar ol y 5ed o Orffennaf 1952 (mae'r dyddiad yn newid bob blwyddyn)
- byddwch yn byw yn y DU yn ystod wythnos y 15fed i 21ain o Fedi.

Sut i hawlio: Dylech gael eich taliad tanwydd gaeaf yn awtomatig. Os nad ydych wedi derbyn eich taliad dylech gysylltu gyda (canolfan Taliad Tanwydd Gaeaf ar 08459 15 15 15.

• CYNLLUN DISGOWNT CARTREF CYNNES

Gallwch gael gostyngiad ar eich bil trydan drwy'r Cynllun Disgownt Cartref Cynnes os yw eich cyflenwr yn rhan o'r cynllun, hyd yn oed os ydych yn defnyddio mesurudd talu wrth fynd neu dalu ymlaen llaw. Gall eich cyflenwr ddweud wrthych chi sut y cewch y disgownt (er enghraifft: taleb y gallwch ei ddefnyddio i roi pres yn eich mesurydd). I gymhwyso mae'n rhaid i chi fod yn derbyn un neu fwy o'r canlynol:

- Elfen Credyd Gwarant o'r Credyd Pensiwn (hyd yn oed os ydych yn cael Credyd Cynilio hefyd).
- Cefnogaeth Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth yn Seileidig ar Incwm (sy'n cynnwys y weithgaredd sy'n ymwneud â gwauth neu gydran cefnogaeth).
- Credyd Treth Gweithio ac mae'n cynnwys elfen plentyn ar gyfer plant 5 oed neu lai neu elfen plentyn anabl
- Credyd Cynhwysol (elfen incwm isel)

Sut i hawlio: os ydych yn gymwys ar gyfer y gostyngiad, byddwch yn cael llythyr yn ystod yr hydref neu aeaf yn dweud wrthych eich bod un ai:

- nad oes rhaid i chi wneud cais - byddwch yn cael y disgownt yn awtomatig,
- i wneud cais- bydd y llythyr yn dweud wrthych pam a sut.

Os na fyddwch yn derbyn llythyr cysylltwch gyda'r Tîm Gostyngiad Cartref Cynnes ar 0345 6039439 neu am fwy o wybodaeth a rhestr o gyflenwyr sy'n rhan o'r cynllun ewch i www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme.

• CREDYD CYNHWYSOL

Mae Credyd Cynhwysol yn cymryd lle budd-daliadau penodol a gallwch ei hawlio os ydych ar incwm isel neu'n ddi-waith. Os ydych yn byw gyda'ch partner a bod y ddau ohonoch yn hawlio Credyd Cynhwysol, dim ond un taliad sengl y byddwch yn ei gael i un cyfrif banc ar gyfer y ddau ohonoch.

Nid oes yna gyfyngiad ar y nifer o oriau y gallwch weithio'r wythnos os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, bydd eich taliad yn lleihau yn raddol fel y byddwch yn ennill mwy a ni fyddwch yn colli eich budd-dal yn syth os ydych ar incwm isel.

Bydd credyd cynhwysol yn un taliad ar gyfer pob un o'r canlynol:

- Lwfans Ceisio Gwaith
- Budd-dal Tai
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Cefnogaeth Incwm

Caiff credyd cynhwysol ei dalu yn wahanol i fudd-daliadau ar hyn o bryd. Bydd yn cael ei dalu unwaith y mis (fel ôl-ddyled) ac fel arfer yn syth i gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu – ewch i adran 'Mae pob ceiniog yn cyfrif'.

Bydd unrhyw help tuag at y rhent (yr hen Fudd-dal Tai) yn cael ei gynnwys yn y taliad Credyd Cynhwysol yr ydych yn ei gael a'ch cyfrifoldeb chi fydd talu eich landlord. Mae yna amgylchiadau arbennig lle gallwch ofyn bod taliadau yn cael eu talu yn syth i'r Landlord.

Mae'n bwysig eich bod chi'n gwneud trefniadau NAWR gyda'ch Landlord ar sut y byddwch yn talu eich rhent unwaith y byddwch ar Gredyd Cynhwysol.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/universal-credit, cysylltwch gyda'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol neu eich Landlord.

Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol:
0345 600 0723
0800 012 1888 - Iaith Gymraeg (gwneud hawliad)
0345 600 3018 – Iaith Gymraeg (dweud am newidiadau)
0345 600 0743 – Ffôn neges destun

Ewch i wefan Gwasanaeth Cynghori Ariannol (www.moneyadviceservice.org.uk) i gael cymorth ar gyllidebau a chynllunio am Gredyd Cynhwysol.

CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT

Gall chwilio am eich swydd gyntaf, swydd wahanol neu fynd yn ôl i weithio fod yn dasg ofnus fel y byddwch yn wynebu ffurflenni cais, cyfweliadau, newid mewn budd-dal, llythyrau gwrthod a gorfod dysgu sgiliau newydd. Y newyddion da yw bod yna nifer fawr o wahanol raglenni ar gael a all helpu pobl i fynd mewn i fyd gwaith a'u cefnogi wrth iddynt gychwyn. Mae pawb yn gwybod mai'r camau cyntaf yw'r rhai anoddaf felly mae angen cychwyn yn araf drwy gysylltu gydag asiantaethau fel y Ganolfan Waith, 'Working Links' a Gyrfa Cymru.

Mae cael hyfforddiant yn un o'r ffyrdd gorau o fod ar y llwybr cywir i sicrhau gwaith ac mae yna nifer o gyfleoedd hyfforddi i chi eu dewis. Gall y Ganolfan Waith, 'Working Links' a Gyrfa Cymru i gyd eich helpu i sicrhau eich bod chi ar y trywydd iawn.

Mae Colegau Lleol hefyd yn ffordd amlwg o gael Hyfforddiant felly edrychwch ar eu rhaglenni nhw ar gyfer y flwyddyn. Am rywbeth mwy achlysurol, caiff hyfforddiant ei gynnig gan Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol; asiantaethau eraill yn eich cymunedol ac efallai'r cant hyd yn oed eu cynnig gan eich Cymdeithas Dai.

Cysylltiadau Defnyddiol

BUDD-DALIADAU A GRANTIAU

- Cyngor ar Bopeth (ewch i'ch llyfr ffôn lleol) **www.citizensadvice.org.uk**
- Money Made Clear Wales – **www.moneymadeclearwales.org**
- Gwasanaeth Cyngor am Arian – **www.moneyadviceservice.org**
- Turn2us (chwilio am fudd-daliadau a grantiau) **www.turn2us.org.uk**
- Gov.UK (gwybodaeth ar bob budd-dal ar gael)

www.gov.uk / www.gov.uk/browse/benefits

LAWDURDODAU LLEOL

• Ynys Môn	www.anglesey.gov.uk	Ffôn: 01248 750 057
• Conwy	www.conwy.gov.uk	Ffôn: 01492 574 000
• Sir Ddinbych	www.denbighshire.gov.uk	Ffôn: 01824 706 101
• Sir Fflint	www.flintshire.gov.uk	Ffôn: 01352 752 121
• Gwynedd	www.gwynedd.gov.uk	Ffôn: 01766 771 000
• Powys	www.powys.gov.uk	Ffôn: 01597 826 000
• Wrecsam	www.wrexham.gov.uk	Ffôn 01978 292 000

CYFLOGAETH A HYFFORDDI

- Gyrfa Cymru – **www.careerswales.com**
  - 0800 028 4844 neu 029 2090 6800 (o ffôn symudol)
- Working Links – **www.workinglinks.co.uk**
  - 0800 917 9262
- Canolfan Waith – **www.gov.uk/contact-jobcentre-plus**
  - 0800 055 6688 (hawlio budd-dal o'r newydd yn unig)
  - 0345 604 3719 (canslo neu newid apwyntiad)

COLEGAU

Ewch i'r llyfr ffôn lleol neu chwilio ar y rhyngrwyd am golegau yn eich ardal leol.

CYNGOR GWASNAETHAU GWIRFODDOL

- Sir Fôn, **www.medrwnmon.org** Ffôn: **01248 724 944**
- Conwy, **cvsc.org.uk** Ffôn: **01492 534 091,**
- Sir Ddinbych, **www.dvsc.co.uk** Ffôn: **01824 702 441,**
- Sir y Fflint, **flvc.org.uk** Ffôn: **01352 744 000,**
- Gwynedd, **www.mantellgwynedd.com**
  Ffôn: **01286 672 626** (Caernarfon)
  Ffôn: **01341 422 575** (Dolgellau)
- Powys, **www.pavo.org.uk** Ffôn: **0845 009 3288**
- Wrecsam, **avow.org/** Ffôn: **01978 312 556**

Gwneud yn fawr o'ch pres

Mae yna gannoedd o bethau bach y gallwch ei wneud i arbed pres yma ac acw. Ar yr un pryd gallwch fod yn gwneud ychydig ar gyfer yr amgylchedd.

Ailgylchu

Mae ailgylchu yn fwy na photeli, caniau a'ch papur newydd dyddiol gall hefyd olygu ailgylchu eich dodrefn, dillad, ac offer a'r rhan fwyaf o eitemau yr ydych yn eu defnyddio o ddydd i ddydd. Felly cofiwch am seliau cist car, siopau dodrefn ail law, siopau elusen a nifer o wefannau fel Freecycle - www.freecycle.org a fydd yn arbed pres neu yn gwneud pres i chi gan atal pethau fynd mewn i dirlenwad hefyd. Gall jync un person fod o werth i rywun arall!

Peidiwch ag anghofio tudalennau ar werth, cyfnewid neu roi am ddim ar Facebook. Mae nifer o eitemau am ddim i'r casglwr.

Dŵr

Fel sydd wedi ei grybwyll o'r blaen, efallai bod yna fesurydd dŵr yn eich cartref neu efallai y byddai'n dda i chi gael un, felly'r lleiaf o ddŵr y byddwch chi yn ei ddefnyddio, y llai o bres y byddwch yn ei wario.

Os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn dioddef o salwch sy'n golygu bod angen defnyddio mwy o ddŵr efallai y byddwch yn gymwys i gael help. Efallai y byddwch yn gymwys am gymorth os oes gennych deulu mawr ac yn cael budd-dal cymhwyso. **Ewch i Cysylltiadau Defnyddio am fanylion.**

Felly meddyliwch am y pethau canlynol:

- cymerwch gawod mae fel arfer yn defnyddio llai o ddŵr ag ynni na rhedeg bath
- diffoddwch y tap wrth olchi eich dannedd
- rhowch botel blastig wedi ei llenwi yn y system er mwyn lleihau faint o ddŵr yr ydych yn ei ddefnyddio
- llenwch eich peiriant golchi dillad neu beiriant golchi llestri bob amser
- gwnewch rywbeth yn syth os bydd tapiau neu orlif yn gollwng
- Ystyriwch ddefnyddio casgen ddŵr i gasglu dŵr glaw. Gallwch ei defnyddio i ddyfrio eich gardd neu olchi eich car.

Bwyd

Siopa

Ceisiwch brynu cynnyrch lleol a dim ond prynu bwyd yr ydych ei angen ar gyfer prydau. Mae hyn yn lleihau gwario ar fwyd sy'n cael ei wastio, mae'n lleihau costau teithio, cefnogi ffermwyr lleol ac yn lleihau faint o bacedi sy'n cael eu rhoi mewn tirlenwad.

Ewch a'ch bagiau eich hun i siopa, defnyddiwch fagiau brethyn neu defnyddiwch 'bagiau am byth' mewn archfarchnadoedd. Mae nifer o archfarchnadoedd yna codi 5c am fag a gyda bron i 150 miliwn o fagiau a ddefnyddir yn y DU yn cael eu gwaredu mewn tirlenwad, mae'n gwneud synnwyr.

Mae wedi ei brofi y gallwch leihau eich bil bwyd drwy wneud rhestr a chadw ato. Bydd edrych beth sydd yn eich oergell a chypyrddau cyn mynd i siopa ond yn fargen os ydych am fwyta'r bwyd ar y diwrnod.

Edrychwch ar-lein, a fyddai cael bwyd wedi ei ddanfon i'ch cartref yn well i chi. Gall hyn leihau costau tacsi neu drafnidiaeth i'r siopau a caiff ei bwyd wythnosol ei ddanfon i'ch drws.

Peidiwch â mynd am fargeinion "prynu un a chael un am ddim" heblaw eich bod chi wirioneddol am ddefnyddio'r ddau! Yn aml iawn, mae'r un am ddim yn cael ei daflyd i'r bin.

Tyfu eich bwyd eich hun

Oes gennych ddarn o dir bach? Rhandir wrth ymyl? Tyfwch eich bwyd eich hun! Neu bot i blannu tomato neu ddau? Arbedwch ychydig o bres drwy dyfu eich llysiau eich hun fel liciwch chi - gallwch hefyd ddefnyddio gwastraff sydd wedi ei gompostio i greu cabaij gwerth ei weld.

Os oes gennych ardd fawr sy'n anodd ei reoli - pam na wnewch chi adael i rywun arall wneud y gwaith i chi. Os wnewch chi gofrestru gyda phrosiect rhannu gardd gall pobl ddefnyddio eich gardd fel rhandir ac am hyn gallwch gael siâr o'r cynnych a fydd yn cael ei dyfu. Ewch i Cysylltiadau Defnyddio am fanylion.

Cydweithrediadau

Gaiff cydweithrediadau bwyd eu rhedeg gan grwpiau lleol sy'n trefnu bod ffermwyr lleol yn danfon bwyd. Mae'n rhaid i chi gasglu cynnyrch tymhorol wythnosol am gost fach.

Coginio popeth

Er ei fod yn hawdd y dyddiau yma i brynu bwyd allan neu brydau parod, fel arfer mae'n rhatach ac yr un mor gyflym i baratoi eich bwyd eich hun. Felly chwiliwch am y llyfr coginio yna neu ewch ar-lein i ddarganfod ryseitiau newydd. Ewch i **cysylltiadau defnyddiol** am fwydlenni ar gost isel lle cewch syniadau defnyddiol.

Ynni

Mae costau ynni yn newid o hyd ac nid ydym yn gwybod o un flwyddyn i'r llall faint fyddwn ni yn ei dalu am nwy neu drydan. Mae nwy a thrydan yn hanfodol i redeg y cartref, felly gwnewch yn siŵr eich bod hi yn ei ddefnyddio yn effeithlon ac yn arbed cymaint o bres ag sy'n bosib. Meddyliwch am rai o'r syniadau defnyddiol yma:

- mae bylbiau golau sy'n arbed ynni yn para hyd at 10 gwaith yn hirach na bylbiau arferol
- gall golchi dillad ar 30 gradd arbed hyd at 40% o ynni a gwnewch yn siŵr bod y peiriant yn llawn cyn golchi
- arbedwch ynni drwy osod eich oergell rhwng 1 -5 gradd, caiff llawer eu gosod
- trowch y thermostat gwres i lawr - drwy ei droi i lawr dim ond 1° gallwch leihau eich biliau o 10%
- gallwch leihau drafftiau drwy ffenestri a drysau drwy gau'r cyrtens
- diffoddwch offer pan nad ydych yn eu defnyddio, mae offer sy'n cael eu gadael ar 'stand by' yn defnyddio bron iawn yr un faint o bŵer a phe byddech yn ei ddefnyddio
- llenwch y tegell gyda faint o ddŵr yr ydych chi ei angen
- sychwch eich dillad tu allan yn hytrach na defnyddio'r sychwr dillad
- insiwleiddiwch eich tanc dŵr poeth a pheipiau *
- gwresogwch yr ystafelloedd yr ydych yn eu defnyddio yn unig
- mae tân trydan yn taflud mwy o wres os yw'r darn adlewyrchol ar y cefn yn lân a sgleiniog. Rhowch ffoil arian tu ôl i wresogydd fel nad yw waliau yn cymryd y gwres - dylai arbed 15% ar filiau gwresogi.
- gallwch arbed lot o bres drwy insiwleiddio eich atig *
- mae switsh 'dimmer' yn ymestyn bywyd bylbiau safonol a gall dorri costau eich bil trydan o hyd at 75%. Gall cynnau a diffodd y golau yn aml gynyddu costau trydan
- gall dadrewi rhewgell ddwywaith y flwyddyn olygu 10% yn llai o gostau rhedeg
- Os nad yw eich rhewgell yn llawn, llenwch y llefydd gwag gyda bagiau gyda phapurau newydd ynddynt, bydd yn torri ar gostau

Efallai y byddwch yn gymwys am grant i wneud gwelliannau arbed ynni. Ewch i wefan y Tîm 'Warm Front. Ewch i Cysylltiadau Defnyddio am fanylion.

*** Siaradwch gyda'ch Swyddog Tai cyn gwneud unrhyw waith**

Ffyrdd eraill o arbed pres

Defnyddio cewynnau go iawn Erbyn bydd eich babi wedi ei hyfforddi i ddefnyddio'r toiled byddwch wedi defnyddio rhwng 4000 - 6000 o gewynnau. Yn seiliedig ar brisiau heddiw gall hynny gostio rhwng £488 - £732. I gychwyn ar gewynnau go iawn bydd angen 25-30 cewyn arnoch a fe all gostio tua £185 gan gynnwys eu golchi!

Nid yw cewynnau go iawn fel oeddynt ers talwm ac maent yn llawer iawn haws i'w defnyddio ac yn haws i'w golchi, Felly ewch i edrych ar-lein. Ewch i Cysylltiadau Defnyddiol.

Pethau adnewyddadwy - gall buddsoddi ychydig mewn batris ail wefru, eitemau solar neu wynt arbed pres yn y tymor hir ac arbed yr amgylchedd.

Prynu ar-lein - Pan fyddwch yn fwy hyderus yn defnyddio'r rhyngrwyd i brynu nwyddau efallai yr hoffech fynd ar wefannau ocsiwn fel e-bay. Gwnewch yn siŵr eich bod yn prynu gan rywun diogel a chyfreithlon.

Arbedwch bres cyn y Nadolig er mwyn osgoi cychwyn y flwyddyn newydd mewn dyled. Mae gan yr Undeb Credyd Glwb Arbed at y Nadolig.

Dillad Ysgol - gofynnwch i'ch awdurdod lleol a ydych yn gymwys i gael help i brynu dillad ysgol.

Glanhau naturiol -Defnyddiwch gynnyrch o'ch cypyrddau i lanhau eich tŷ yn lle gwario ar gynnyrch glanhau. Mae finegr yn dda i lanhau ffenestri a gallwch hefyd ddefnyddio 'bicarbonate of soda'.

Cysylltiadau Defnyddiol

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni - **www.energysavingtrust.org.uk - Ffôn: 030023 1234**
Home Energy Savers - **www.homeenergysaver.co.uk - Ar-lein yn unig**
LLinell Gymorth Ynni - **www.energyhelpline.com - Ffôn: 0800 0740745**
Uswitch - **www.uswitch.com - Ffôn: 0800 051 5493**
www.moneyadviceservice.org.uk - Ffôn: 0300 500 5000
Frugal Living - **www.top50freebies.co.uk - Ar-lein yn unig**
Freecycle - **www.freecycle.org - Ar-lein yn unig**
Money Saving Expert - **www.moneysavingexpert.com - Ar-lein yn unig**
Money Supermarket - **www.moneysupermarket.com - Ar-lein yn unig**
Real nappy website - **www.goreal.org.uk - Ffôn: 0845 8500606**
Warm Front Team - **www.warmfront.co.uk - Ffôn: 0800 408 1437**
Home Heat - **www.homeheathelpline.org.uk - Ffôn: 0800 336699**
Eco Cleaning Products - **www.uk-energy-saving.com - Ar-lein yn unig**
E-bay - **www.ebay.co.uk - Ar-lein yn unig**
www.gardenshareconwy.org.uk
www.housekeeping.about.com
www.dwrcymru.com 0800 052 0145

Bancio, Benthyg ac Arbed

Cyfrifon Banc

Erbyn heddiw, mae hi'n anodd iawn ymdopi heb gael cyfrif banc. Mae yna nifer o resymau am hyn:

- Mae'n rhoi mwy o ddewisiadau talu biliau ac yn aml gall talu drwy ddebyd uniongyrchol fod yn rhatach.
- Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn mynnu bod gan bobl gyfrif banc er mwyn talu cyflog.
- Rhaid i bob budd-dal y wlad gael ei dalu i Fanc / Cymdeithas Adeiladu / Swyddfa Bost Cyfrif / Undeb Credyd.
- Mae'n well gan landlordiaid gael taliad uniongyrchol o gyfrif banc.
- Rhaid i Lwfansau Cynhaliaeth Addysg gael eu talu yn syth i gyfrif banc.
- I brynu'r rhan fwyaf o eitemau dros y ffôn neu ar-lein mae'n rhaid talu gyda cherdyn debyd neu gredyd.
- Mae llawer iawn o sefydliadau yn anfodlon derbyn sieciau - a all fod yn arwydd cynnar ein bod ni'n symud tuag at gymdeithas lle mae pres parod yn lleihau.
- Cynlluniau yn y dyfodol i foderneiddio "cheque imaging" a fydd yn galluogi banciau i glirio darlun digidol ardystiedig o siec.

Cyfrifon Banc Sylfaenol

Mae cyfrif banc sylfaenol yn eich galluogi i dderbyn pres a thalu biliau. Gall fod yn gam cyntaf tuag at agor cyfrif cyfredol. Efallai y gall fod yn opsiwn i chi os ydych wedi cael gwrthod agor cyfrif cyfredol. Fel arfer nid oes yna orddrafft gyda chyfrif banc sylfaenol ond mae yn eich galluogi i:

- Talu eich biliau drwy Ddebyd Uniongyrchol neu archeb sefydlog
- Derbyn pres fel cyflog neu fuddion
- Tynnu pres allan mewn peiriant arian gyda cherdyn (am ddim fel arfer ond mae rhai peiriannau yn codi am y gwasanaeth)

Efallai y byddai cyfrif banc sylfaenol yn opsiwn da i chi os:

- Ydych ar incwm isel neu fod gennych gofnod credyd gwael
- Nad ydych angen y pethau ychwanegol y mae cyfrif cyfredol yn ei gynnig fel gorddrafft.

Cyfrif cyfredol

Gallwch ddefnyddio cyfrif cyfredol gyda banc neu gymdeithas adeiladu i reoli eich pres o ddydd i ddydd. Maent yn eich galluogi i:

- Talu eich biliau drwy Ddebyd Uniongyrchol neu archeb sefydlog
- Derbyn pres fel cyflog neu fuddion
- Talu am eitemau gyda cherdyn debyd
- Tynnu pres o beiriant pres
- Mynediad i orddrafft ond mae angen i fanc awdurdodi hyn

Gallwch fel arfer wneud cais am un ai cyfrif banc sylfaenol neu gyfrif cyfredol eich hun, drwy'r post, ffonio neu ar lein.

Gall eich cyflog, budd-dal a chynilion gael eu talu i'ch cyfrif cyfredol ac yna ei rannu i'ch ymrwymiadau amrywiol. Gall y rhain gynnwys taliadau rhent, ad-dalu benthyciad, biliau tanwydd (gyda'r bonws o allu cael prisiau llai na defnyddio mesurydd cerdyn neu bres), treth cyngor ac yn y blaen. Gallwch hefyd drosglwyddo pres yr un diwrnod o'ch cyfrif cynilo. Mae nifer o fanciau'r stryd fawr hefyd yn cynnig cyngor ar y mathau yma o gynnyrch.

Undebau Credyd

Mae Undebau Credyd yn gwmnïau cydweithredol di-broffid sy'n berchen gan eu haelodau ac yn cael eu rheoli ganddynt ar gyfer eu haelodau.

Mae Undeb Credyd Gogledd Cymru yn darparu llawer iawn o wasanaethau ariannol ymarferol, fforddiadwy a syml i bawb sy'n bwy neu'n gweithio yn yr ardaloedd yma yng Ngogledd Cymru: Ynys Môn, Conwy, Sir Dinbych, Sir Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

Beth bynnag yw eich amgylchiadau, byddant yn trio dod o hyd i ddatrysiad ariannol sy'n addas i chi.

Bydd eich cerdyn yn eich galluogi i dynnu pres allan mewn unrhyw LINK ATM (neu dwll yn y wal). Os ydych wedi cael cerdyn debyd Visa, gallwch ei ddefnyddio i siopa dros y ffôn neu ryngrwyd neu gael pres yn ôl gan siopau mawr sy'n dangos yr arwydd Visa.

Yn ychwanegol i Gyfrif Cyfredol, mae Undeb Credyd Gogledd Cymru nawr yn cynnig cerdyn debyd talu ymlaen llaw. Mae hyn yn galluogi pobl i roi swm penodol ar gerdyn debyd. Mae posib ei ddefnyddio yn y ffordd arferol i dynnu pres o ATM a'i ddefnyddio i brynu pethau mewn siop ac ar-lein.

Byddwch yn ymwybodol bod rhai banciau / undebau credyd yn codi ffi am gyfrif cyfredol

Tip

Mae pobl heb gyfleusterau debyd uniongyrchol yn talu ar gyfartaledd £70 y flwyddyn yn ychwanegol am eu biliau ynni.

Cyfrifon cynilo

Rhesymau arferol i arbed

- Nadolig
- Gwyliau
- Cael eitem drydanol newydd e.e. Peiriant Golchi Dillad
- Dodrefn
- Blaendal am eitem mawr e.e. car

Mae arbed pres ar gyfer y tymor byr neu hir yn gam pwysig.

Benthyg

Os ydych angen benthyg pres mae yna sawl opsiwn. Cofiwch fod benthyg pres bob amser yn costio; caiff hyn ei alw yn y gyfradd ganrannol flynyddol neu 'annual percentage rate (APR%).'

Beth mae APR yn ei olygu?

Yr APR yw'r cyfradd llog sy'n dweud faint yw cyfanswm cost benthyg gan gynnwys unrhyw gostau. Pan fyddwch yn benthyg pres, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod pob benthyciwr yn nodi'r gyfradd yma. APR yw'r ffordd orau o gymharu tebyg am ei debyg. Cafodd ei gyflwyno fel rhan o'r Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974 ac mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cardiau credyd, benthyciadau personol a morgeisi.

Beth yw pwrpas APR?

Os byddwch yn benthyg pres ac mai'r gyfradd llog yw 5% y flwyddyn, bydd yn costio 5% o'r swm ydych chi wedi ei fenthyg. Bydd angen talu hyn yn ôl yn ychwanegol i'r pres ydych chi wedi ei fenthyg. Fel arfer mae cyfradd llog yn cael ei nodi yn flynyddol, ond dim bob amser felly gwnewch yn siŵr eich bod chi yn gwirio hyn.

Dyma enghraifft

- Faint mae'n ei gostio i fenthyg £1,000 ar 10% ac yna ei dalu yn ôl chwe mis wedyn?
- Beth am gychwyn gyda sỳm syml. Byddai blwyddyn ar 10% yn costio £100 (10% o £1,000). Felly dros chwe mis byddwch yn talu hanner hynny hy £50. Mae mor syml â hynny.

Gall benthyg pres mewn ffordd gyfrifol eich helpu i adeiladu neu adfer cyfradd credyd ac mae posib ei ddefnyddio ar gyfer nifer o bethau.

Efallai bod pres ar gael yn hawdd wrth fenthyg ar stepen y drws ond gallwch weld eich bod mewn dyled o hyd.

Nid yw bywyd bob amser yn rhedeg fel wats ac mae'n dda gwybod os bydd yna unrhyw beth yn mynd o'i le bod gennych bres.

* Ffigwr ar y 01.4.2015 £300 Ibenthyciad	Cyfnod Benthyg mewn Wythnosau	APR% Arferol	Wythnosol Talu yn ôl	Cyfanswm Talu yn ôl	Cost Benthyciad
Undeb Credyd	52	42.60%	£6.89	£358.26	£58.26
Money Line	52	142.96	£8.37	£461.28	£161.28 inc fee
Stepen Drws Benthycwyr	52	272%	£10.50	£546.00	£246.00

Tip Meddyliwch os fedrwch chi fforddio talu yn ôl o gyllideb eich cartref. Peidiwch ag arwyddo hyd y byddwch wedi ystyried yr holl opsiynau.

Mae Benthycwyr anghyfreithlon yn targedu pobl fregus. Hyd yn oed os ydych chi'n ei chael hi'n anodd benthyg o rywle arall, dylech osgoi benthyg gan fenthycwyr anghyfreithlon. Gall unrhyw un sy'n dioddef o hyn neu yn gwybod am ffrind neu aelod o deulu sy'n cael eu heffeithio gan eu gweithgareddau ffonio Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru a siarad gyda swyddog arbennig. Mae galwadau yma yn rhai cyfrinachol.

0300 123 3311

Os ydych yn prynu ar gredyd yn syth gan fasnachwr efallai y byddant yn cynnal Yswiriant Amddiffyn Taliad (Payment Protection Insurance – PPI) sy'n daliad misol ychwanegol i'ch amddiffyn os ydych yn mynd yn sâl neu yn colli eich swydd. Efallai mai synnwyr cyffredin yw hyn ond gwnewch yn siŵr eich bod yn cael yr yswiriant ac os byddwch angen cyflwyno hawliad ar y polisi eich bod yn gallu gwneud hynny.

Cysylltiadau Defnyddiol

Undeb Credyd Gogledd Cymru – **0333 2000 601**
www.northwalescu.co.uk
Money Made Clear Wales – **www.moneymadeclearwales.org**
Money Advice Service – **www.moneyadviceservice.org**
Wales Illegal Money Lending Unit – **0300 123 3311**
www.direct.gov.uk/stoploansharks

Delio gyda dyledion

Gall dyled amrywio fel ôl-ddyledion rhent, biliau gwasanaethau heb eu talu neu gael trafferth talu benthyciadau yn ôl. Gall hefyd gael ei achosi gan nifer o ffactorau fel salwch, colli gwaith, lleihad mewn budd-dal neu berthynas yn methu. Gobeithio na fydd neb ohonoch yn mynd i ddyled a gobeithio bydd y pecyn yma yn eich helpu os byddwch chi.

Camau dyled:

Cam 1 Yr achos (Diweithdra, salwch, perthynas yn methu…..)
Cam 2 Colli taliadau
Cam 3 Benthyg gan un arall i dalu'r llall (Robbing Peter to pay Paul)
Cam 4 Dyledion yn Cynyddu
Cam 5 Cytundebau afrealistig
Cam 6 Gwŷs / beili wrth eich drws
Cam 7 PANIG

Y peth cyntaf y bydd angen i chi ei wneud cyn i chi allu ymdrin â phroblem ddyled yw gweld faint o bres sydd arnoch i bobl i wneud hyn, bydd angen gwneud rhestr o bobl a chwmnïau y mae arnoch chi bres iddynt (eich credydwyr). Mae'n ddefnyddiol cael y wybodaeth ganlynol:

- enw a chyfeiriad y credydwr
- y cyfrif neu rif cyfeirnod
- copi o'r cytundeb fenthyg wreiddiol y bu i chi arwyddo

Mae'n syniad da i gadw'r llythyr neu ddatganiad diweddaraf o bob dyled gyda'i gilydd mewn un lle fel y gallwch ddod o hyd yn hawdd iddynt os ydych chi eu hangen.

Os ydych wedi derbyn unrhyw bapurau llys neu lythyrau sy'n ymddangos fel rhai brys, efallai bydd angen i chi wneud rhywbeth ar frys. Os nad ydych yn siŵr o'r papurau beth dylech ei wneud nesaf, chwiliwch am gyngor yn syth gan gynghorydd profiadol. Ewch i Cysylltiadau Defnyddiol.



Talu sylw i'r dyledion sydd a'r mwyaf o frys

Unwaith y byddwch wedi gwneud rhestr o'ch credydwyr, mae angen i chi ddarganfod pa un sydd a'r brys mwyaf.

Mae rhai dyledion yn fwy brys nag eraill oherwydd gall y canlyniad o beidio â'u talu fod yn waeth ar gyfer rhai dyledion nag eraill. Dyledion blaenoriaeth yw'r rhain.

MATH O DDYLED	GORCHYMYN Y CREDYDWR	BOB AMSER YN FLAENO-RIAETH?	WEITHIAU YN FLAENORIAETH?
Rhent	Troi allan	IA	
Morgais	Troi allan	IA	
Benthyciad	Gwerthu gorfodol ac yna troi allan	IA	
Treth y Cyngor	Beili, carcharu posib, ymglymiad enillion, methdaliad	IA	
Dirwy Llys Ynadon	Beili, carchar posib	IA	
Nwy/trydan	Cyflenwad yn cael ei dorri	IA	
Dŵr	Dyfarniad Llys Sirol		IA - ond dim datgysylltu
Cynnal/cefnogi plant	Ymwneud ag enillion, carchar posib am beidio â thalu	IA	
Arian Cymdeithasol	Tynnu o fudd-dal neu pan fyddwch ddim ar fudd-dal mwyach a CCI	IA	
Trwydded Teledu	Dirwy llys ynadon, beili, carchar posib	IA	
Treth Incwm / TAW / YG	Beili, methdaliad	IA	
Cytundeb Rhentu	nwyddau yn cael eu hadfeddiannu		IA
Ffôn	Cyflenwad yn cael ei dorri		IA
Hurbwrcas / Gwerthiant amodol	Eitem yn cael ei adfeddiannu		IA
Dyled catalog	CCJ, colli defnydd o'r catalog		IA
Pres sy'n ddyledus i deulu	CCJ , colli cyfeillgarwch		IA

Os oes gennych bres i dalu eich dyledion, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn ymdrin ag unrhyw ddyled sy'n flaenoriaeth yn gyntaf cyn y rhai llai brys fel dyledion cardiau credyd, gorddrafft a benthyciadau eraill. Caiff y rhain eu galw yn ddyledion sydd ddim yn flaenoriaeth.

Os ydych yn cael trafferth efo dyled siaradwch gyda'ch swyddog tai neu landlord yn syth oherwydd gallwn eich helpu.

Gallwch gynnig cyngor a help i ddarganfod datrysiad rhesymol i'ch problemau ariannol. Gallwn eich cyfeirio at asiantaethau eraill fel Cyngor ar Bopeth, National Debtline, Stepchange neu Payplan sy'n gallu rhoi cyngor am ddim ar fudd-dal lles, dyledion a materion ariannol. Cofiwch fod yna rywun yno bob amser i'ch helpu!

BEILI
Beth yw Beili?

Beili yw rhywun sydd â phŵer cyfreithiol i gasglu dyledion penodol. Gallant wneud hyn drwy ofyn i chi dalu beth ydych ei angen neu gymryd eich eiddo a'u gwerthu i wneud pres.

Gall beili un ai fod yn swyddog y llys neu yn cael ei gyflogi gan gwmni preifat. Enw arall arnynt yw Asiant Gorfodaeth a bydd unrhyw waith papur ydych yn ei gael gan y beili yn defnyddio'r term yma.

Os oes arnoch chi bres i rywun, efallai y bydd beili yn dod i'ch cartref i weld os gallant werthu unrhyw beth yr ydych chi'n berchen i dalu'r ddyled. Caiff unrhyw bres o'u gwerthu ei ddefnyddio i dalu ffioedd y beili a thaliadau a'r ddyled.

Dim ond pan fydd eich credydwyr wedi defnyddio ffyrdd eraill o gael y pres yn ôl y byddant yn defnyddio beili. Byddwch fel arfer yn cael rhybudd bod eich credydwyr yn ystyried defnyddio beili i'ch cael chi i ad-dalu eich dyled. Os nad ydych wedi cysylltu yn barod gyda'ch credydwr, dyma'r amser i wneud hynny. Drwy drafod eich problemau gyda thalu'r ddyled yn ôl, efallai y galwch ddod i gytundeb gyda'ch credydwr ac osgoi'r beili yn gyfan gwbl.

Dim ond ar gyfer mathau penodol o ddyled y gellir defnyddio beili. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Treth Cyngor a chyfraddau busnes
- Dirwyo parcio
- Dyledion credyd a phersonol (dim ond ar ôl i Ddyfarniad Llys Sirol gael ei wneud)
- Dyfarniadau'r Uchel Lys
- Dirwy llys yr ynadon ac archebion iawndal
- Taliad Cefnogi plant
- Cynhaliaeth
- Treth incwm, yswiriant gwladol a TAW
- Rhent busnes

Os nad yw'r ddyled yn un o'r rhain ar y rhestr mae'n debygol mai casglwr dyled yw a dim beili. Bydd eich opsiynau i ymdrin â chasglwr dyled yn wahanol.

Oes rhaid gadael y beili i mewn?

Nid oes rhaid i chi adael y beili i mewn i'ch cartref hyd yn oed os ydynt yn dweud bod rhai i chi. Fodd bynnag, os ydych eisiau stopio'r beili bydd angen i chi sicrhau eich bod yn gwneud rhywbeth am eich dyled. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu gyda'ch credydwr, siarad gyda'r beili drwy' y blwch postio neu ffenest neu adael eich cartref i siarad efo'r beili tu allan.

Os byddwch yn gwrthod gadael y beili i mewn, efallai y byddant yn darganfod ffordd arall o ddod mewn i'ch cartref. Er enghraifft, os byddwch yn gadael y drws cefn yn agored efallai y gallai'r beili ddod i mewn ffordd yma. Os oes gennych unrhyw adeiladau tu allan fel sied neu fodurdy ar eich eiddo, gall y beili fynd mewn i'r rhain os nad ydynt wedi cloi. Gall y beili ond ddod i mewn drwy'r ffyrdd arferol fel drwy ddrws a ni allant ddringo dros waliau neu ddringo drwy ffenestri. Gall y beili ond defnyddio ffordd heddychlon o ddod i mewn i'ch cartref sy'n golygu na allant orfodi dod i mewn.

Beth i'w wneud os bydd beili wrth y drws:

- peidiwch ai adael i mewn hyd yn oed os ydynt yn gofyn am gael defnyddio eich lle chwech neu eu bod 'eisiau siarad'. Unwaith bydd y beili i mewn, efallai y byddant yn cymryd eich eiddo. Efallai bydd y beili yn dweud bod ganddynt hawl i ddod mewn i'ch cartref a chymryd eich eiddo. Yn dechnegol, mae hyn yn gywir, ond mae gennych chi hawl hefyd i beidio â'u gadael i mewn i'ch cartref. Gall y beili ond dod i mewn yn heddychlon a gyda'ch caniatâd chi heblaw bod ganddynt ganiatâd gan y llys i orfodi eu ffordd i mewn.
- siaradwch gyda'r beili drwy'r drws neu flwch post Gofynnwch i weld tystiolaeth o bwy ydynt neu dystiolaeth o ganiatâd gan y llys i orfodi eu ffordd i mewn eich cartref - gallant ei roi mewn drwy'r blwch post neu o dan y drws.
- os byddwch yn penderfynu agor y drws, peidiwch â gadael y beili i mewn. Dywedwch wrthynt na fyddwch yn rhoi caniatâd iddynt ddod i mewn i'ch cartref. Sefwch yn ei ffordd, daliwch eich tir a pheidiwch â gadael iddynt ddod i mewn. Nid oes gan y beili hawl i fynd heibio neu roi eu troed yn y drws.
- gofynnwch iddo adael a dweud y byddwch yn cysylltu gyda'ch credydwr i drefnu cynllun ad-dalu'r ddyled
- os yw'r beili yn gofyn am bres i dalu'r ddyled a'ch bod chi eisiau ei dalu yn uniongyrchol iddynt, cynigiwch beth allwch chi. Os yw'r beili yn derbyn, gofynnwch am gael siarad gyda nhw tu allan. Ewch allan, cau'r drws tu ôl i chi a'u talu nhw tu allan - peidiwch â'u gadael i mewn i'ch tŷ i'w talu. Sicrhewch eich bod yn cael derbynneb am y taliad.

Weithiau gall beili orfodi eu hunain i mewn i'ch eiddo ond dim ond mewn sefyllfaoedd prin iawn y bydd hyn yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys;

- pan fydd y beili yn gofyn am ffioedd llys yr ynadon sydd heb eu talu
- pan fydd y beili eisiau dod mewn i'ch safle busnes i fynd ar ôl taliadau dyfarniadau llys sirol neu ddyfarniadau'r uchel lys
- os yw'r beili wedi cael gorchymyn llys yn eu galluogi i ddefnyddio gorfodaeth resymol i ddod mewn i'ch eiddo i gasglu dyled sy'n ddyledus i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- pan fydd beili wedi cael gorchymyn llys yn eu galluogi i ddefnyddio gorfodaeth resymol i fynd mewn i eiddo arall y maent yn ei gredu eich bod chi wedi mynd ach eiddo yn fwriadol iddo er mwyn atal eich eiddo rhag cael eu cymryd.

RHYBUDD

Defnydd o feili os yw eich landlord yn cael gwarant meddiant.

Os yw eich landlord yn rhoi gwarant meddiant bydd y beili yn cael rhybudd i'ch troi chi allan.

Bydd y warant yn cael ei ddanfon gan feili'r llys a bydd dyddiad ac amser eich troi allan wedi ei nodi ar y warant.

Os nad ydych wedi gadael erbyn dyddiad y rhybudd troi allan, bydd y beili yn dod i'ch cartref ac mae ganddynt y pŵer i orfodi chi i adael.

Mae hi yn erbyn y gyfraith i'ch landlord drio eich troi allan heb warant meddiant. Os bydd hyn yn digwydd, ffoniwch yr heddlu.

Os byddwch yn cael rhybudd troi allan, gallwch wneud cais i'r llys bod gwarant meddiant yn cael ei roi i un ochr.

Am fwy o wybodaeth am feili a'u pwerau cysylltwch gyda;

- **Cyngor ar Bopeth (03444 772020) - www.adviceguide.org.uk**
- **National Debtline (0800 808 4000) - www.nationaldebtline.org**

Rheolau hanfodol ar gyfer ymdrin â dyled

GWNEWCH

- Cysylltwch gyda'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth neu ffynhonnell arall o gyngor dyled diduedd. Ewch i Cysylltiadau Defnyddiol.
- Cysylltwch gyda'ch credydwyr/landlord yn syth ac egluro eich anawsterau
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymdrin â'ch dyledion sy'n flaenoriaeth yn gyntaf
- Llenwch ffurflenni'r llys a gadewch i'r llys wybod yr holl ffeithiau
- Darparwch gopi o'ch datganiadau ariannol
- Ewch i bob gwrandawiad llys
- Ceisiwch wneud cytundebau gyda'r bobl hynny lle mae arnoch chi bres iddynt
- Byddwch yn onest a realistig am beth allwch ad-dalu erbyn dyddiad penodol. Peidiwch â dim ond dweud wrth eich credydwr yr hyn maent eisiau ei glywed
- Cadwch gopïau o bob llythyr a datganiadau, Bydd hyn yn eich helpu i gadw i unrhyw drefniadau yr ydych wedi eu gwneud gyda'ch credydwyr. Cadwch gopïau o'r llythyrau rydych wedi gyrru iddynt, nid dim ond y rhai yr ydych yn eu cael yn ôl.

PEIDIWCH

- Peidiwch ag anwybyddu'r broblem; ni fydd yn mynd i ffwrdd a'r hiraf y byddwch yn ei adael y gwaethaf fydd o.
- Peidiwch â benthyg pres gan fenthycwyr anghyfreithlon neu gan bobl sy'n codi cyfradd llog uwch
- Peidiwch ag anwybyddu llythyrau neu alwadau ffôn, ni fydd y mater yn mynd i ffwrdd
- Peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to a pheidiwch â chynhyrfu, gallwch roi trefn ar eich problemau
- Peidiwch â gadael i'ch credydwr eich bwlio neu fygwth i wneud addewid na allwch ei gadw
- Peidiwch â benthyg mwy o bres i dalu eich dyledion, yn enwedig drwy gymryd mwy allan ar gredyd neu gerdyn siop. Bydd hyn ond yn cynyddu eich dyled a gwneud y broblem yn waeth

Byddwch yn wyliadwrus o fenthyciadau diwrnod cyflog - Byddwch h yn talu llog uchel iawn ac mae gan gwmnïau benthyciadau fel hyn fynediad i'ch cyfrif banc a gallent gymryd y pres unrhyw dro, gall hyn olygu nad oes gennych ddigon o bres i dalu eich rhent neu filiau pwysig eraill. Os ydych yn meddwl cymryd benthyciad siaradwch gyda'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn gyntaf (0300 500 5000) neu eich Undeb Credyd lleol (0333 2000 601).

Cyllido yn gywir i glirio eich dyledion

I fynd i'r afael a dyled rhaid edrych ar y broblem. Un o'r ffyrdd gorau o wneud hyn yw ysgrifennu rhestr o'ch incwm a gwariant. Caiff hyn ei alw yn Daflen Gyllideb.

Mae taflen fel yma yn gadael i chi weld yn glir faint o bres sy'n ddyledus a faint o bres sydd gennych i dalu'r ddyled. Rydym wedi cynnwys Taflen yn yr adran gyntaf.

'Paratoi ar gyfer eich cartref newydd' i geisio eich helpu. Neu gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell ar wefan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Ewch i **Cysylltiadau Defnyddiol**.

Penderfynwch os ydych am osod eich cyllideb ar ffigyrau wythnosol neu fisol - peidiwch â chymysgu'r ddau.

- rhowch eich incwm i mewn. Nodwch eich tâl arferol (peidiwch â rhoi goramser os nad yw'n daliad rheolaidd) a budd-daliadau yr ydych yn ei gael neu gyfraniadau gan aelodau'r teulu.
- nodwch eich costau byw arferol (am arweiniad ewch yn ôl i'r adran ar gyllidebu)
- os yw'r pres sy'n mynd allan yn fwy na'ch incwm, rydych angen cyngor neu fel arall bydd eich dyled yn tyfu a thyfu.
- rhestrwch eich dyledion gan roi'r rhai sydd â blaenoriaeth yn gyntaf. Y dyledion blaenoriaeth yw'r rhai pwysicaf ac mae'n rhaid i chi gynnig talu'r rhain yn ôl gyntaf e.e. Rhent

Ewch i **Cysylltiadau Defnyddiol** am fwy o help gydag unrhyw ddyled a hefyd ewch yn ôl i 'Paratoi ar gyfer eich cartref newydd ar sut i gyllidebu.

Tip

Cofiwch: mae yna bob amser rhywun yno i'ch helpu, felly cysylltwch gyda'ch Cymdeithas Dai neu Landlord.

Cysylltiadau Defnyddiol

Cyngor ar Bopeth - **www.adviceguide.org.uk**
03444 772020

National Debtline - **www.nationaldebtline.org**
0800 808 4000

Stepchange Debt Charity - **www.stepchange.org**
0800 138 1111

Payplan - **www.payplan.com**
0800 280 2816

Money Advice Service - **www.moneyadviceservice.org.uk**
0300 500 5000

Money Made Clear Wales – **ww.moneymadeclearwales.org**

Money Advice Service – **www.moneyadviceservice.org**

Mynd ar-lein

Mae cael mynediad i'r rhyngrwyd yn ddefnyddiol iawn. Gallwch chwilio am y bargeinion gorau, cadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau a theulu, cael gwybod ar unrhyw beth ydych chi eisiau, cael gwasanaethau yn gyflym a hawdd a diweddaru eich hun ar newyddion a beth sy'n mynd ymlaen yn eich cymuned.

Mae hyn yn oed yn bwysicach nawr os ydych yn hawlio budd-daliadau. Gan fod y system yn newid, bydd angen i chi hawlio eich budd-dal ar-lein; felly mae'n bwysig iawn eich bod yn dysgu yn eithaf sydyn.

Yn 2014 roedd 79% o oedolion yng Nghymru dros 16 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd. Efallai mai pres neu ddiffyg hyder sy'n atal pobl rhan defnyddio'r rhyngrwyd ond gall hyn fod yn wahanol.

Mynd ar y rhyngrwyd yn eich llyfrgell leol

Ar hyn o bryd mae yna dros 250 o lyfrgelloedd yng Nghymru sy'n agored 10 awr neu fwy'r wythnos. Maent yn agored i bawb yn eu cymunedau a gallwch ymuno am ddim. Gallwch ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd am ddim.

Edrychwch yn eich llyfrgell leol am unrhyw gyrsiau a all eich helpu i fod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiaduron. Hefyd, cysylltwch gyda ni, eich cymdeithas dai i ddarganfod a oes yna unrhyw gyrsiau yn lleol y gallwch fynd iddynt.

Hyfforddiant

Mae bob Awdurdodau Lleol yn darparu dosbarthiadau Technoleg Gwybodaeth syml neu sesiynau blasu. Ewch i cysylltiadau defnyddiol am fanylion eich llyfrgell leol. Gallwch hefyd gael cyrsiau hyfforddi drwy Learn Direct. Ewch i Cysylltiadau Defnyddiol.

Wi-Fi

Mae rhai llyfrgelloedd yn cynnig mynediad wi-fi am ddim i'r rhyngrwyd. Bydd angen i chi fod yn aelod i ddefnyddio'r gwasanaeth, cysylltwch gyda'ch llyfrgell leol am fwy o wybodaeth.

Tip

- ewch i'ch llyfrgell leol i gael mynediad i'r rhyngrwyd
- Cysylltwch gyda'ch coleg lleol

Cysylltiadau Defnyddiol

www.communities2point0.org.uk/computer-courses-in-wales

Cyrsiau – www.learndirect.co.uk